

Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

Swydd-ddisgrifiad Athletau Cymru

Teitl y Swydd:	Swyddog Cyfryngau, Cyfathrebu a'r Wefan
Atebol i:	Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
Lleoliad:	Y Prif leoliad fydd prif swyddfa Athletau Cymru, gyda rhywfaint o waith maes yn ôl yr angen
Cyfrifoldebau:	Cynorthwyo i ddatblygu a chyflwyno mentrau cyfathrebu effeithiol i'r wasg, ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn hysbysu rhanddeiliaid mewnol ac allanol a chynyddu proffil ac enw da Athletau Cymru drwy ddatblygu a chynnal perthnasau cryf yn y maes cyfryngau.
Pwrpas Cyffredinol y swydd:	Gweithio gydag adrannau perthnasol Athletau Cymru a'r partneriaid allanol priodol i greu a hwyluso llwybr cyfathrebu effeithiol. Sicrhau bod gwefan Athletau Cymru a'r platfformau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynnal a'u datblygu'n rheolaidd.
Cyflog:	£17,000 - £20,000 (yn seiliedig ar brofiad)
Patrwm Gweithio:	Mae'r rôl hon yn gofyn am hyblygrwydd mewn patrymau gwaith i fynychu a chynnwys digwyddiadau gyda'r nos a phenwythnos o fewn 37 awr yr wythnos yn gyffredinol.



Cyfrifoldebau Allweddol:

Corfforaethol

- Creu a datblygu gwefan sy'n gwbl ddwyieithog a sicrhau bod datganiadau Athletau Cymru i'r wasg yn gwbl ddwyieithog.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o gynhyrchu deunydd marchnata atodol, yn ôl y gofyn.
- Datblygu cynlluniau marchnata a hyrwyddo ar gyfer mentrau pwysig ar y cyd â'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu,.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i ddadansoddi data ar gyfer y Tîm Rheoli Uwch er mwyn cyfrannu at ddatblygiad rhaglenni'r dyfodol.

Allanol

- Rheoli a diweddarau gwefannau a safleoedd cyfryngau cymdeithasol Athletau Cymru gyda chynnwys perthnasol, cywir a diddorol.
- Cysylltu â darparwyr cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn datblygu perthnasau cryf a sicrhau bod Athletau Cymru'n cael amlygrwydd.
- Ysgrifennu copi diddorol ar gyfer cynulleidfa amrywiol ar draws amryfal sianeli.
- Datblygu datganiadau i'r wasg, ymateb i ymholiadau gan y wasg, dod o hyd i luniau, gosod straeon, defnyddio eich menter i ennyn diddordeb a chreu cyfleoedd newydd yn y cyfryngau.
- Cydlynu a chynhyrchu cylchlythyrau misol.
- Hysbysebu a chynorthwyo i gyflwyno digwyddiadau Athletau Cymru gan gynnwys cystadlaethau a seremonïau gwobrwyo.
- Datblygu mentrau er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n dilyn Athletau Cymru ar yr amrywiol blatfformau cyfryngau cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gysylltu â'r grwpiau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol.
- Cynorthwyo i gynhyrchu deunydd marchnata ategol, yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo clybiau sy'n aelodau i greu gwefannau, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a llwybrau cyfathrebu.
- Mynychu cystadleuthau allweddol a rhoi cymorth a diweddariadau i'r cyfryngau yn ôl yr angen.



Mewnol

- Cynorthwyo i hyrwyddo cyfathrebu mewnol cadarnhaol
- Gweithio'n agos gyda'r adran gystadleuthau i hyrwyddo ac ysgrifennu am y digwyddiadau athletau ar draws y disgyblaethau i gyd.
- Gweithio gyda chydweithwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid/rhanddeiliaid eraill er mwyn datblygu cynnwys hyrwyddol yn rhagweithiol.

Rhedeg Cymru

- Rheoli'r Pencampwyr Rhedeg sy'n blogio a rheoli'r cynnwys yn ôl yr angen
- Sicrhau bod y wefan yn cael ei diweddarau'n llwyr, gan gynnwys yr adran Dod o Hyd i Grŵp.
- Ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, parhau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd rhedeg ledled Cymru.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiol gyfryngau rhaglenni Rhedeg Cymdeithasol Rhedeg Cymru.

O.N. Bydd rhaglenni gwaith gweithwyr yn cael eu gosod gan gynllun gweithredol Athletau Cymru. Bydd perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn cyflwyniad y cynllun hwn a'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunir arnynt ar y cyd ar gychwyn y cyfnod adolygu.

Manyleb y person:

	Hanfodol	Dymunol
Defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol	✓	
Dealltwriaeth sylfaenol o gyfreithiau hawlfraint ac egwyddorion moesegol cysylltiedig â chyhoeddi	✓	
Profiad o systemau a chreu gwefannau	✓	
Profiad o ysgrifennu adroddiadau i'r cyfryngau	✓	
Profiad o ddefnyddio meddalwedd cyhoeddi	✓	
Profiad o gynhyrchu cyfryngol (e.e. fideo, ffotograffiaeth)	✓	

Welsh Athletics Ltd
Cardiff International Sports Stadium
Leckwith Road, Cardiff CF11 8AZ

Tel 029 2064 4870
Fax 029 2034 2687

www.welshathletics.org
office@welshathletics.org



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

Dealltwriaeth o holl ddisgyblaethau athletau	✓	
Dealltwriaeth o Athletau Rhyngwladol		✓
Profiad o gyflwyno gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd/partneriaid		✓
Rhywfaint o brofiad a/neu ddealltwriaeth o google analytics neu offerynnau gwerthuso tebyg		✓
Cysylltiadau gyda sefydliadau'r prif gyfryngau yng Nghymru a'r DU		✓
Siarad Cymraeg	✓	
Gallu teithio dros Gymru (a'r DU yn ôl yr angen)	✓	
Sgiliau TG gan gynnwys defnyddio Microsoft Office, e-bost a'r we	✓	
Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig.	✓	
Sgiliau trefnu a gweinyddu ardderchog	✓	
Profiad o reoli gwefan	✓	
Gallu gweithio dan bwysau		✓
Gallu gweithio o fewn amserlen benodol		✓
Gallu rhoi sylw i fanylion		✓
Sgiliau cyfathrebu da	✓	
Digon o hunan-ysgogiad a gallu gweithio ar eich liwt eich hun	✓	
Chwaraewr tîm sydd â pharodrwydd i arwain	✓	
Hyblyg a gallu newid yn ôl anghenion y swydd	✓	
Gallu annog ac ysgogi eraill	✓	

Y Broses Benodi: I wneud cais, lawrlwythwch y swydd-ddisgrifiad a'r dogfennau cais o wefan Athletau Cymru <http://www.welshathletics.org/about-us/work-with-us.aspx>

Cysylltwch â James Williams, Pennaeth Gweithrediadau, ar 02920 644870 , os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu anfonwch e-bost i:
James.williams@welshathletics.org.

Anfonwch ffurflenni cais i Andrew Thomas, Rheolwr Swyddfa, Athletau Cymru Cyf, Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwyth, Caerdydd, CF11 8AZ, neu mewn e-bost i: andrew.thomas@welshathletics.org

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 17 Ionawr 2018 (hanner nos)

Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn: 22 Ionawr 2018, yng Nghaerdydd